Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26

Chwefror 2025

senedd.cymru

# 1. Cefndir

## Cyflwyniad

**1.** Ar 10 Rhagfyr 2024, cyhoeddodd y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26. Ochr yn ochr â'r cynigion roedd dogfen naratif, Llinellau Gwariant yn y Gyllideb, a thablau yn ategu'r cynlluniau gwariant.[1]

**2.** Cyn cyhoeddi'r gyllideb, ysgrifennodd Rebecca Evans AS, a oedd ar y pryd yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn gofyn i bwyllgorau'r Senedd adrodd ar y gyllideb ddrafft erbyn 3 Chwefror 2025 fel y gellid cynnal dadl ar y gyllideb ddrafft ar 4 Chwefror 2025.[2] Yn y cyfamser mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu'r ddadl ar gyfer y dyddiad hwn.[3]

## Ein cylch gwaith a'n dull craffu

**3.** Cylch gorchwyl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a amlinellir yn Rheolau Sefydlog 21 a 26C. Caiff y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder a materion allanol sydd o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â'u cymhwysedd, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

**4.** Ar 14 Hydref 2024, fe wnaethom gytuno i gynnal ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 drwy ohebiaeth. Cytunwyd hefyd y byddai'r gwaith craffu hwnnw yn canolbwyntio ar gynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer gwariant ar faterion yn ymwneud â chyfiawnder a gwariant ar welliannau i hygyrchedd y gyfraith.[4]

**5.** Ar 14 Tachwedd 2024, fe wnaethom ysgrifennu at Huw Irranca-Davies AS, Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig (y Dirprwy Brif Weinidog), a Julie James AS, y Cwnsler

[1] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025 i 2026, 10 Rhagfyr 2024
[2] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 8 Awst 2024
[3] Senedd Cymru, Datganiad a Chyhoeddiad Busnes, 21 Ionawr 2025
[4] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 5 Chwefror 2024, Cofnodion

Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni (y Cwnsler Cyffredinol), yn gofyn am fanylion am y materion hyn o fewn y gyllideb arfaethedig.[5]

**6.** Ar 8 Ionawr 2025, ymatebodd y Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol i'n cais am wybodaeth.[6] Fel atodiadau i'r ymateb, fe wnaethant ddarparu:

- amlinelliad o ddyraniadau'r gyllideb ddrafft i'r prif gyllidebau sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yn ôl Llinell Gwariant yn y Gyllideb ac yn ôl Prif Grŵp Gwariant, ynghyd â disgrifiad naratif o unrhyw newidiadau o flwyddyn i flwyddyn a nodwyd i'r cyllidebau hynny;
- rhestr o linellau'r gyllideb sy'n cyfrannu'n anuniongyrchol at ganlyniadau polisi cyfiawnder.

**7.** Fe wnaethom ystyried y dystiolaeth ysgrifenedig ar 13 Ionawr 2025.[7]

[5] Llythyr at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 14 Tachwedd 2024
[6] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 8 Ionawr 2025
[7] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Ionawr 2025, Cofnodion

# 2. Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26

## Atebolrwydd ynghylch canlyniadau o ran gwariant ar weithgarwch sy’n ymwneud â chyfiawnder

**9.** Fel yr amlygwyd yn ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25, yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym wedi gofyn am wybodaeth fanylach gan Lywodraeth Cymru ynghylch gwariant arfaethedig ar weithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder. Rydym wedi gofyn am y manylion hyn er mwyn ein galluogi ni a'n rhanddeiliaid i fonitro canlyniadau'r gwariant hwnnw yn fwy effeithiol.[8]

**10.** Yn y gorffennol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i archwilio'r ffyrdd y gall wella lefel y wybodaeth y mae'n ei darparu ynghylch gwariant ar weithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder, er – fel y dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ar y pryd, Mick Antoniw AS, wrthym ym mis Ionawr 2024 – “nid yw'n bosibl darparu gwybodaeth gynhwysfawr ar lefel fanwl am wariant cyfiawnder gan ei bod yn dal yn wir bod gweithgarwch sy’n gysylltiedig â chyfiawnder yn torri ar draws portffolios ac yn cael ei ddyrannu o fewn nifer o Linellau Gwariant y Gyllideb (BEL)”.[9]

**11.** Yn ein hadroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25, fe wnaethom nodi y byddem – maes o law – yn ystyried adroddiad cynnydd Llywodraeth Cymru ar ei rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru. Byddai'r ystyriaeth hon yn ymwneud â'r manylion y gallai'r adroddiad ei gynnwys ynghylch gwariant ar weithgarwch sy’n gysylltiedig â chyfiawnder yn erbyn yr hyn a ragwelwyd, ynghyd â chynnal gwerthusiadau o ganlyniadau'r gwariant hwnnw.[10] Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad cynnydd ym mis Chwefror 2024.[11]

**12.** Yn y dystiolaeth ysgrifenedig a gawsom mewn perthynas â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, fe wnaeth y Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella lefel y

[8] Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25, Chwefror 2024, paragraffau 10 i 14
[9] Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 23 Ionawr 2024, tudalen 2
[10] Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25, Chwefror 2024, paragraff 22
[11] Llywodraeth Cymru, Sicrhau Cyfiawnder i Gymru: adroddiad cynnydd, Chwefror 2024

wybodaeth y mae'n gallu ei darparu ynghylch gwariant a wneir ar gyfiawnder ar draws y llywodraeth, ond unwaith eto dywedwyd:

> *"Fel y mae ein rhagflaenwyr wedi nodi gerbron y Pwyllgor, fodd bynnag, nid yw'n bosibl ar hyn o bryd i ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr ar lefel fanwl am wariant cyfiawnder, gan fod gweithgarwch cysylltiedig â chyfiawnder yn torri ar draws portffolios ac yn cael ei ddyrannu o nifer o linellau gwariant yn y gyllideb (BEL). Mewn rhai meysydd, lle mae BEL yn cwmpasu ystod o wahanol weithgareddau, ni fydd dyrannu setliad drafft yn golygu bod penderfyniadau terfynol wedi'u gwneud ynghylch sut y byddai'r arian o fewn y BEL honno'n cael ei flaenoriaethu, a bydd angen gwneud gwaith pellach i asesu i ba raddau y cânt eu dyrannu i wariant sy'n gysylltiedig â chyfiawnder."*[12]

**13.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol hefyd eu bod wedi darparu gwybodaeth am linellau'r gyllideb sy'n "cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chyfiawnder ar draws y Prif Grwpiau Gwariant gwahanol sy'n eu cynnwys".[13]

**14.** Mae hwn yn ddull gwahanol i'r hyn a welwyd yn y blynyddoedd blaenorol, pan wnaeth y Pwyllgor hefyd dderbyn gwybodaeth fanylach am linellau'r gyllideb sy'n cyfrannu'n fwy anuniongyrchol tuag at gyflawni gweithgarwch o'r fath.[14] Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol wrthym y bydd dyraniadau'r gyllideb ddrafft ar gyfer y llinellau hyn yn y gyllideb "yn cael eu hystyried gan eu pwyllgorau craffu pwnc perthnasol", ac am y rheswm hwnnw nid ydynt wedi darparu gwybodaeth am y llinellau hyn yn y gyllideb.[15]

## Ein barn ni

**15.** Er ein bod yn cydnabod yr anawsterau, fel y nodwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol, wrth ddadgyfuno gwariant ar weithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder o fewn cyllidebau drafft Llywodraeth Cymru, mae'n

[12] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig, a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflenwi, 8 Ionawr 2025, tudalen 2
[13] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig, a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflenwi, 8 Ionawr 2025, tudalen 2
[14] Gweler, er enghraifft, yr atodiad i lythyr y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ar y pryd dyddiedig 23 Ionawr 2024
[15] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig, a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflenwi, 8 Ionawr 2025, tudalen 1

anffodus bod y wybodaeth a gawsom eleni i lywio ein gwaith craffu yn llai cynhwysfawr na'r hyn a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn arbennig o siomedig o ystyried yr ymrwymiad hirdymor y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud inni y byddai'n ymchwilio i ffyrdd o wella lefel y wybodaeth y mae'n ei darparu ynghylch gwariant ar weithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder – ymrwymiad a gafodd ei ailddatgan inni eleni gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol.

**16.** O ystyried natur hirsefydlog yr ymrwymiad hwn, rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru nodi pa waith y mae wedi'i wneud hyd yma yn y maes hwn a pha waith y mae'n bwriadu ei wneud yn y dyfodol.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa waith y mae wedi'i wneud hyd yma i ymchwilio i ffyrdd y gall wella lefel y wybodaeth y mae'n ei darparu am wariant ynghylch gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder, a pha waith y mae'n bwriadu ei wneud yn y dyfodol yn y maes hwn.

**17.** At hynny, er y bydd pwyllgorau eraill y Senedd hefyd yn ystyried llinellau'r gyllideb sy'n effeithio'n anuniongyrchol ar gyflawni gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder, nid ydym o'r farn mai mater i Lywodraeth Cymru yw dewis pa bwyllgorau a ddylai ac na ddylai fod yn gyfrifol am graffu ar agweddau penodol ar ei chyllidebau drafft, o gofio bod gorgyffwrdd sylweddol yn aml rhwng meysydd cyfrifoldeb. Mae hyn yn adlewyrchu cred y Pwyllgor Busnes bod rhoi'r gallu i bwyllgorau ddewis mynd ar drywydd materion ar draws portffolios a meysydd pwnc yn "sicrhau gwell gwaith craffu ac osgoi'r perygl o ddull gwaith rhy gul".[16]

**18.** Fel y nodir yn yr adran uchod, roeddem wedi rhagweld y byddem yn ystyried manylion a ddarparwyd yn adroddiad cynnydd Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2024 ar ei rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru mewn perthynas â'r gwariant ynghylch gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder, gan osod hyn yn erbyn yr hyn a ragwelwyd, a chynnal gwerthusiadau o ganlyniadau'r gwariant hwnnw. Fodd bynnag, o ystyried bod yr adroddiad cynnydd – yn ein barn ni – yn rhoi manylion cyfyngedig ar y materion hyn, rydym yn disgwyl y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys manylion mwy cynhwysfawr o fewn adroddiadau cynnydd yn y dyfodol, er mwyn gwella gallu'r Senedd i graffu ar wariant Llywodraeth Cymru ynghylch gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder.

[16] Pwyllgor Busnes, Pwyllgorau'r Chweched Senedd: Teitlau a chylchoedd gorchwyl, Mehefin 2021

## Y rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru

**19.** Ym mis Mai 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen i ddiwygio'r system gyfiawnder yng Nghymru.[17] Uchelgais hirdymor y rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru yw paratoi ar gyfer datganoli cyfiawnder a phlismona “pe bai pwerau, a’r lefelau priodol o gyllid” yn cael eu datganoli.[18]

**20.** Mae BEL Trawsnewid Cyfiawnder yn y gyllideb ddrafft yn darparu adnoddau i ariannu'r rhaglen hon. O'i gymharu â chyllideb ddrafft 2024-25, mae'r dyraniad ar gyfer y BEL hon wedi cynyddu o £0.48 miliwn i £0.688 miliwn yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26.

**21.** Mae’r BEL Diwygio Cyfansoddiadol hefyd “yn cyfrannu at waith i geisio datganoli cyfiawnder ieuenctid a'r gwasanaeth prawf”, fel y nodwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol; mae’r dyraniad ar gyfer y BEL hon hefyd wedi cynyddu o £1.997 miliwn i £2.014 miliwn yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26.

**22.** Mae llythyr y Dirprwy Brif Weinidog a’r Cwnsler Cyffredinol yn dweud y bydd y cynnydd hwn mewn cyllid i'r BEL Trawsnewid Cyfiawnder yn cefnogi trefniadau staffio ar gyfer paratoadau datganoli a diwygio tribiwnlysoedd a “chostau cysylltiedig posib eraill”.[19]

**23.** Fe wnaethom ofyn i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol roi trosolwg o’r gwariant a gynlluniwyd yn 2025-26 ar raglen waith Sicrhau Cyfiawnder i Gymru, gan gynnwys:

- y canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio eu sicrhau o ganlyniad i’r gwariant hwn;
- esboniad o’r meysydd gwaith a fydd yn cael blaenoriaeth yn 2025-26; a
- gwybodaeth am y modd y mae’r gwariant arfaethedig hwn yn cymharu â gwariant ar raglen waith Sicrhau Cyfiawnder i Gymru yn y flwyddyn ariannol gyfredol, 2024-25.

**24.** Mewn ymateb i'r cais hwn, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol mai’r adroddiad cynnydd, dyddiedig Chwefror 2024, “yw'r crynodeb

[17] Llywodraeth Cymru, Sicrhau Cyfiawnder i Gymru, Mai 2022
[18] Llywodraeth Cymru, Sicrhau Cyfiawnder i Gymru, Mai 2022, tudalen 8
[19] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig, a’r Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflenwi, 8 Ionawr 2025, tudalen 2

gorau a mwyaf diweddar o hyd o'r canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio eu cyflawni", a chawsom ein cyfeirio at y wybodaeth a ddarparwyd yn yr atodiadau i'w llythyr.[20]

**25.** Fe wnaethom hefyd ofyn i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol ddarparu manylion am wariant arfaethedig ar raglenni cyfiawnder mewn partneriaeth â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mewn ymateb i hynny, fe wnaethant ein cyfeirio at fanylion a ddarparwyd mewn perthynas â Chyfiawnder Menywod a Glasbrintiau Cyfiawnder Ieuenctid, gan ddweud eu bod yn "falch ein bod wedi gallu darparu cyllid ychwanegol" ar gyfer y prosiectau hyn. Dywedwyd hefyd eu bod yn "parhau i ariannu niferoedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) yng Nghymru, gan ddarparu cyllid y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael i heddluoedd yn Lloegr".[21]

**26.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y cyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i archwilio datganoli cyfiawnder ieuenctid a'r gwasanaeth prawf[22]. Ar ben hynny, dywedwyd bod "rhaid i unrhyw ddatganoli swyddogaethau cyfiawnder gael ei ariannu'n briodol", ac y bydd goblygiadau ariannol datganoli'r swyddogaethau hyn yn rhan o'r trafodaethau gyda Llywodraeth y DU.

**27.** Am y rhesymau hyn, dywedwyd wrthym "nad oedd yn bosibl" nodi'r cynnydd tebygol i gyllidebau sy'n gysylltiedig â chyfiawnder o ganlyniad i ddatganoli cyfiawnder, gan ddweud:

> *"Rydym yn rhagweld y byddai unrhyw drosglwyddo pwerau a swyddogaethau ar raddfa fawr, gan gynnwys ehangu adnoddau'r gyllideb, yn dod i rym yn nhymor nesaf y Senedd. Byddai unrhyw drosglwyddo swyddogaethau cyn hynny yn gofyn am drafodaethau ar yr angen am gyllid yn ystod y flwyddyn.*
>
> *Yn 2025/26, rydym yn rhagweld gweithgarwch sylweddol i negodi gyda Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid, mireinio polisi gweithredol ac, o bosibl, gyflwyno'r mecanwaith cyfreithiol i*

[20] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig, a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflenwi, 8 Ionawr 2025, tudalen 2
[21] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig, a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflenwi, 8 Ionawr 2025, tudalen 2
[22] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig, a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflenwi, 8 Ionawr 2025, tudalen 3

*ddatganoli cyfrifoldebau newydd i Gymru. Bydd y gweithgarwch hwn yn cael ei ariannu o'r BEL Trawsnewid Cyfiawnder a'r BEL Diwygio Cyfansoddiadol fel rhan o'r rhaglen waith ehangach i weithredu argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.*

*Yn benodol, rydym yn disgwyl defnyddio'r ddau BEL hyn i ariannu nifer fach o staff ychwanegol i gefnogi trafodaethau gyda Llywodraeth y DU a pharatoi ar gyfer mabwysiadu swyddogaethau newydd gan Lywodraeth Cymru.”*[23]

## Ein barn ni

**28.** Rydym yn croesawu'r adnoddau ychwanegol a fydd yn cael eu darparu i'r BEL Trawsnewid Cyfiawnder a'r BEL Diwygio Cyfansoddiadol yn 2025-26. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod yr adnoddau ychwanegol hyn yn fach, yn enwedig o ystyried y bydd y BEL Trawsnewid Cyfiawnder yn darparu cyllid tuag at waith paratoi ar gyfer datganoli cyfiawnder ac ar gyfer diwygio tribiwnlysoedd Cymru yn y dyfodol.

**29.** Felly, credwn y dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion ynghylch pa ffrydiau gwaith y bydd yr adnoddau ychwanegol hyn yn eu cefnogi, a pha fathau o “gostau cysylltiedig posib eraill” a ragwelir yn 2025-26.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am ba ffrydiau gwaith y bydd yr adnoddau ychwanegol a ddyrannwyd i'r BEL Trawsnewid Cyfiawnder a'r BEL Diwygio Cyfansoddiadol yn eu cefnogi, a gwybodaeth ynghylch pa gostau cysylltiedig posibl eraill a ragwelir yn 2025-26.

**30.** Rydym yn cydnabod y byddai unrhyw drosglwyddiad o bwerau a swyddogaethau ar raddfa fawr, gan gynnwys ehangu adnoddau cyllidebol, yn dod i rym yn nhymor nesaf y Senedd. Rydym hefyd yn cydnabod y byddai unrhyw drosglwyddiadau uniongyrchol o swyddogaethau yn gofyn am drafodaethau ynghylch yr angen am gyllid yn ystod y flwyddyn. Rydym yn credu y dylid hysbysu'r Pwyllgor am unrhyw gyllid o'r fath a ragwelir yn ystod y flwyddyn.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw drosglwyddiad o swyddogaethau gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â

---

[23] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig, a’r Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflenwi, 8 Ionawr 2025, tudalen 3

chyfiawnder, ac unrhyw gronfeydd ychwanegol cysylltiedig neu drosglwyddiad cyllid sydd eu hangen i gefnogi'r swyddogaethau hynny.

**31.** Rydym hefyd yn croesawu'r cynnydd yn y cyllid a ddarperir i gefnogi'r Glasbrintiau Cyfiawnder Menywod a Chyfiawnder Ieuenctid, a'r cyllid parhaus a ddarperir i ariannu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru, yn ychwanegol at yr hyn sydd ar gael i heddluoedd yn Lloegr.

**32.** Nodwn ddatganiad y Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol mai adroddiad cynnydd Llywodraeth Cymru, dyddiedig Chwefror 2024, yw'r "crynodeb gorau a mwyaf diweddar" o'r canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio eu cyflawni o ganlyniad i'w rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru. Fodd bynnag, nodwn fod y ddogfen hon wedi'i chyhoeddi bron i flwyddyn yn ôl, ac wrth edrych ymlaen at y "gweithgaredd sylweddol" yn 2025-26 i baratoi ar gyfer datganoli rhai pwerau cyfiawnder, rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi adroddiad arall i'r Senedd ar y cynnydd y mae'n ei wneud yn y maes hwn cyn diwedd y Chweched Senedd.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi adroddiad cynnydd arall ar ei rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru cyn diwedd y Chweched Senedd.

## Tribiwnlysoedd Cymru

**33.** Mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru, Llywodraeth Cymru, yn darparu cefnogaeth weinyddol i Dribiwnlysoedd Cymru. Ymddangosodd y Gwir Anrhydeddus Syr Gary Hickinbottom, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, gerbron y Pwyllgor ym mis Hydref 2024,[24] a chydnabod gorwariant o fwy na £220,000 yn 2022-23 a thros £860,000 yn 2023-24 y tu hwnt i'r hyn a ddyrannwyd i'r tribiwnlysoedd, fel y nodwyd yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2023-24[25]. Eglurodd y Llywydd yn ei adroddiad blynyddol fod y gorwariant yn 2023-24:

> *"... yn bennaf oherwydd mwy o amser barnwrol gyda ffi a chostau recriwtio, cynnydd mewn costau cyflog a phensiwn ac, yn dilyn COVID, gwrandawiadau wyneb yn wyneb yn dychwelyd i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, sef y tribiwnlys*

[24] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 14 Hydref 2022, Cofnod y Trafodion
[25] Llywodraeth Cymru, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru Pumed Adroddiad Blynyddol 1 Ionawr 2023 i 31 Mawrth 2024, 24 Mai 2024, paragraff 4.1

> *mwyaf. Ni fu cynnydd yn y dyraniadau cyllideb i gwrdd â'r gwariant cynyddol hwn."*[26]

**34.** Yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26, mae BEL y Tribiwnlysoedd wedi derbyn dyraniad o £6.008 miliwn, cynnydd o gymharu â'r dyraniad o £4.15 miliwn a ddarparwyd yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25.

**35.** Dywed y Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol fel a ganlyn mewn perthynas â'r cynnydd hwn:

> *"Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru i nodi'r sbardunau ar gyfer costau ychwanegol a'u lleihau ar gyfer y flwyddyn hon a blynyddoedd dilynol. Yn y bôn, mae tribiwnlysoedd yn wasanaeth sy'n seiliedig ar y galw, ond rydym yn ceisio sicrhau eu bod yn gweithredu mor effeithlon â phosibl. Er bod nifer o sbardunau gwariant cynyddol yn anghildroadwy, mae rhai meysydd eraill yn cynnig rhywfaint o botensial ar gyfer effeithlonrwydd gyda chymorth arweinwyr y tribiwnlysoedd unigol.*
>
> *Serch hynny, dros y blynyddoedd diwethaf bu cynnydd parhaus yng nghostau rhedeg y gwasanaeth tribiwnlysoedd heb gynnydd cyfatebol yn y ddarpariaeth gychwynnol mewn cyllidebau blynyddol.*
>
> *Mae'r Gyllideb ddrafft wedi mynd i'r afael â'r sefyllfa hon gyda dyraniad dros dro o £6.008m ar gyfer 2025/26, sef cynnydd o'r £4.110 miliwn yn 2024/25. Mae hyn yn cynrychioli cydnabyddiaeth sylweddol o bwysigrwydd gwaith y tribiwnlysoedd a'r heriau a wynebir."*[27]

**36.** Maent yn dweud ymhellach mai'r "disgwyliad" fyddai i'r Llywydd a'i dîm arweinyddiaeth gymryd "pob cam posib" i sicrhau bod gwariant yn aros o fewn y swm cynyddol hwn.[28]

---

[26] Llywodraeth Cymru, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru Pumed Adroddiad Blynyddol 1 Ionawr 2023 i 31 Mawrth 2024, 24 Mai 2024, paragraff 4.2
[27] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig, a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflenwi, 8 Ionawr 2025, tudalen 3
[28] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig, a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflenwi, 8 Ionawr 2025, tudalen 3

**37.** Ym mis Mehefin 2023, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ddiwygiadau arfaethedig i'r tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru,[29] ac ym mis Ionawr 2024 cyhoeddodd grynodeb o’r ymatebion i'w ymgynghoriad.[30]

**38.** Yn dilyn ei ddatganiad ar Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2024, dywedodd y Prif Weinidog ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Vaughan Gething AS, fod y Bil i ddiwygio tribiwnlysoedd Cymru yn un:

> *“…y gallwn ddod ato ar ddiwedd y tymor hwn os gallwn gyflawni pob rhan arall o'r rhaglen. Felly, mae'n gyflwyniad posibl ar ddiwedd y tymor, ond mae'n dibynnu ar faint o amser mae'n ei gymryd i ni ddeddfu.”*[31]

**39.** Yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2023-24, dywedodd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru nad yw “union amseriad y ddeddfwriaeth honno wedi’i gadarnhau eto”, ond roedd tribiwnlysoedd Cymru yn gweithio ar y dybiaeth y bydd y “caiff ei chyflwyno yn 2025 ac y daw i rym, gobeithio, yn 2026."[32]

**40.** Mae'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol yn datgan yn eu llythyr fod amserlennu deddfwriaeth “wrth gwrs, yn ddarostyngedig i’w broses ar wahân ei hun”, fodd bynnag:

> *"Yn y cyfamser, rydym yn parhau i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu Bil, p'un ai i'w gyflwyno yn y Senedd hon neu yn barod ar gyfer y Senedd nesaf. Hyd yma, mae'r gwaith hwnnw wedi'i wneud o fewn yr adnoddau presennol.*
>
> *Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys adnoddau ychwanegol ar gyfer y BEL Trawsnewid Cyfiawnder. Un o brif ddibenion hyn yw caniatáu ar gyfer dwysáu gwaith paratoi i nodi, cwmpasu a chynllunio ar gyfer y ffrydiau gwaith sylweddol y bydd eu hangen i ddod â system dribiwnlysoedd newydd i rym ar ôl i ddeddfwriaeth gael ei phasio.”*[33]

---

[29] Llywodraeth Cymru, System dribiwnlysoedd newydd i Gymru: Papur gwyn, 19 Mehefin 2023
[30] Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad: System dribiwnlysoedd newydd i Gymru: Papur gwyn
[31] Y Cyfarfod Llawn, 9 Gorffennaf 2024, Cofnod y Trafodion [250]
[32] Llywodraeth Cymru, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru Pumed Adroddiad Blynyddol 1 Ionawr 2023 i 31 Mawrth 2024, 24 Mai 2024, paragraff 8.6
[33] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig, a’r Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflenwi, 8 Ionawr 2025, tudalen 3

### Ein barn ni

**41.** Rydym yn croesawu'r dyraniad cynyddol yn y gyllideb ddrafft ar gyfer gweinyddu'r tribiwnlysoedd datganoledig, o ystyried y pwysau y mae'r tribiwnlysoedd wedi'u hwynebu fel y gwnaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ei ddweud wrthym y llynedd. Credwn ei bod yn hanfodol bwysig, o ran mynediad at gyfiawnder, fod gan y tribiwnlysoedd adnoddau priodol.

**42.** Rydym hefyd yn nodi "disgwyliad" y Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol y byddai'r Llywydd a'i dîm arweinyddiaeth yn cymryd "pob cam posibl" i sicrhau bod gwariant yn aros o fewn y swm cynyddol hwn, ac yn edrych ymlaen at dderbyn tystiolaeth yn ddiweddarach eleni gan y Llywydd i glywed am y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at sicrhau'r canlyniad hwn.

**43.** Yn yr un modd, nodwn fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu deddfwriaeth i ddiwygio tribiwnlysoedd Cymru, i'w chyflwyno yn y Senedd hon neu "gan baratoi ar gyfer y Senedd nesaf". Er ein bod yn cydnabod bod amserlennu deddfwriaeth yn ddarostyngedig i'w phroses ar wahân o fewn Llywodraeth Cymru, hoffem fynegi ein gobaith y bydd y ddeddfwriaeth bwysig hon yn cael ei chyflwyno i'r Senedd cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio tribiwnlysoedd Cymru o fewn amserlen a fydd yn galluogi iddi gwblhau ei thaith ddeddfwriaethol cyn diwedd y Chweched Senedd.

## Rhaglen Llywodraeth Cymru i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch

**44.** Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch.[34] Gosododd fersiwn ddiwygiedig o'i rhaglen ar 19 Ionawr 2024,[35] a chyhoeddodd ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2023-24 ym mis Rhagfyr 2024.[36]

**45.** Fe wnaethom ofyn i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol ddarparu gwybodaeth am wariant wedi'i gynllunio o fewn cyllideb ddrafft 2025-26 yn ymwneud â chyflawni ei raglen. Dyma'r ymateb a gawsom:

[34] Llywodraeth Cymru, Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd 2021 i 2026, Medi 2021
[35] Llywodraeth Cymru, Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd ddiwygiedig 2021 i 2026, Ionawr 2024
[36] Llywodraeth Cymru, Dyfodol cyfraith Cymru: adroddiad blynyddol 2023 i 2024, Rhagfyr 2024

> *"Fel yr esboniwyd mewn blynyddoedd blaenorol, telir costau ein gwaith i gyflawni Dyfodol Cyfraith Cymru o nifer o bortffolios fel rhan o weithgarwch deddfwriaethol ehangach y sefydliad. Dyna'r sefyllfa o hyd ar gyfer 2025-26 ac, yn wir, felly y bydd hi yn y blynyddoedd i ddod."*[37]

## Ein barn ni

**46.** Rydym yn cydnabod esboniad y Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol fod costau gwaith Llywodraeth Cymru i gyflawni ei rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru yn cael eu talu o sawl portffolio.

**47.** Mae'n anffodus, fodd bynnag, nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu rhoi manylion i'r Pwyllgor am brosiectau unigol sy'n cyfrannu at y rhaglen hon, a chostau disgwyliedig y prosiectau hynny; manylion y mae wedi'u rhoi i'r Pwyllgor i lywio ei waith craffu ar gyllidebau drafft blaenorol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam nad yw wedi gallu darparu manylion am eitemau unigol o wariant sydd wedi'i gynllunio i gefnogi ei rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, o ystyried ei bod wedi gallu gwneud hynny mewn blynyddoedd blaenorol.

[37] Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig, a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflenwi, 8 Ionawr 2025, tudalen 4